

Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,

Nos Lun, 28 Hydref 2019

am 7 yr hwyr.

1. Croeso ac ymddiheuriadau.

Presennol: B Hughes **BH**, L Jones **LJ**, C Jones **CJ**, V Owen **VO**, OG Roberts **OGR**, JA Roberts (**yn y gadair**) EAB Thomas **EABT**, LM Huws **LMH**, RW Owen **clerc**, Hayley & Helen o Ffrindiau Bodedern.

Ymddiheuriadau: J Ferry **JF**, A Ifan **AI**, E Jones **EJ**.

2. Datgan Diddordeb: **CJ** eitem 9.1, **clerc** eitem 9.2.

3. Trafodaeth gyda cynrychiolwyr ffrindiau Bodedern ynglyn a'r Maes Chwarae.

Derbyniwyd cais gan Ffrindiau Bodedern am gymorth ariannol tuag at y gwaith atgyweirio yn y parc, yn cynnwys codi cerrig, ail lefelu a gosod turf newydd (cyfanswm o £1188 + TAW) Mae'r cyngor yn gwynebu heriau ariannol difrifol oherwydd y swm sylweddol o waith sy'n ofynnol yn y fynwent, ac gan fod y gwariant tu hwynt i allu'r cyngor, mae'r gost yn cael ei rhannu dros mwy nac un flwyddyn. Er hyn, nododd y cyngor eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd y parc i'r gymuned, ac y byddent yn dymuno bod yn gefnogol. Cytunwyd i Ffrindiau Bodedern edrych os oedd modd torri'r gost drwy hadu yn lle gosod turf, gofyn am noddwr ayyb, ac i'r cyngor gysidro'r cais yn y flwyddyn ariannol newydd pan fyddai'r costau yn gwynebu'r cyngor yn fwy clir. Diolchodd y cyngor i Hayley a Helen am eu ymdrech dros sicrhau defnydd y parc i'r gymuned.

4. Arwyddo cofnodion Medi 2019.

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir. **EABT** yn cynnig, **BH** yn eilio.

5. Materion sy'n codi.

5.1 Y **clerc** yn nodi ei bod yn anodd iawn cael ail ddyfnbris am drin y lloches bws, ac ei bod wedi cysylltu a holl glercod yr ynys am amgrymiadau. Y **clerc** i barhau gyda'i ymholiadau.

5.2 Derbyniwyd ymateb **CSYM** i'r cais i osod arwyddion newydd, gyda **CSYM** yn nodi oherwydd torriadau yn eu cyllideb mae rhaid rhoi blaenoriaeth i arwyddion y priffyrdd. Y **clerc** i ysgrifennu at brif weithredwr yr Adran Briffyrdd. Nododd **LMH** y byddai cyfle i'r cyngor roi adborth i **CSYM** yn yr ymgynghoriad nesaf, a gallai'r cyngor nodi eu dymuniad i'r adran briffyrdd cael blaenoriaeth os dymunant.



Cyngor Cymuned Bodedern



6. Deddf Cynllunio a Gwlad a Thref: I dderbyn unrhyw sylwadau ar geisiadau cynllunio. Dim ceisiadau.

7. Gohebiaeth i'w adolygu

7.1 Un Llais Cymru-Cyfarfod Pencampwr Iaith Gymraeg.

7.2 Medrwn Mon- Cynllun Tro Da Ynys Mon.

7.3 Dafydd Idriswyn, Un Llais Cymru- Ardal Harddwch Naturiol Ynys Mon. Nododd **LMH** fod CSYM yn y broses o ymateb i'r ymgynghoriad yn dilyn cefnogaeth cyfreithiol ac fod sawl pwynt yn codi pryder. Y cyngor i ymateb yn nodi eu bod yn adleisio pryderon CSYM.

8. **Taliadau i'w gwneud**- Cytunwyd i wneud y taliadau canlynol, **OGR** yn cynnig, **CJ** yn eilio. (*Yn unol a Rheol 12 o'r Rheolau Sefydlog*)

Mon Grass Cutting	MGC3172	£240.00	Rhif siec: 200084
Cyflog Clerc	Gorff/Awst/Medi	£480.00	Rhif siec: 200085
HMRC	Gorff/Awst/Medi	£120.00	Rhif siec: 200086
Wreath Poppy	Sul y Cofio	£20.00	Rhif siec: 200087

9. Eitemau a ddaeth i sylw'r Cyngor gan y Cynghorwyr.

9.1 **CJ** wedi derbyn ymholiad gan deulu yn dymuno gosod mainc er cof yn y fynwent. Dim gwrthwynebiad can y cyngor, ond y lleoliad i'w gadarnhau gan y teulu.

9.2 Derbyniwyd gais gan deulu am ganiatad i osod carreg bedd gyda "curbings" yn y fynwent, yn groes i rheolau'r fynwent. Nododd y cyngor eu cydymdeimlad a'r teulu yn dilyn eu profedigaeth, ond yn anffodus nid yw'r cyngor mewn sefyllfa i allu fynd yn groes i'r rheolau, ac fod caniatad i osod carreg ben yn unig yn unol a rheolau mynwentydd eraill yr ardal. Y clerch i gysylltu a'r teulu i'w hysbysu o'r penderfyniad.

9.3 **LJ** yn nodi anfodlonrwydd gyda polisi CSYM o un troli ailgylchu i bob ty yn unig. Ar ol cysylltu a CSYM, yr ymateb a dderbyniwyd oedd y dylai lenwi'r bin du gyda unrhyw gor lif ailgylchu, ond nododd y cyngor fod hyn yn mynd yn groes i'w polisi o annog ail gylchu.

9.4 **JAR** yn nodi fod mwsog yn beryg ar y llwybr dros ffor i'r Eglwys, a fyddai'n beryg iawn i gerddwyr yn ystod y tywydd gwlyb. Y clerch i gysylltu a CSYM.

9.5 **JAR** yn nodi ei bod yn methu mynychu gwasanaeth Sul y cofio eleni. Y cclerch i gysylltu a **EJ** I weld os bydd ar gael.

10. Dyddaida cyfarfod nesaf.

25 Tachwedd 2019

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Rhoscryman Bach, Llanfairynghornwy, LL65 4LS.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com

